

# Cadw'r aer oer allan

## Dulliau DIY syml o atal drafftiau


Does neb yn hoffi byw mewn tŷ drafftio. Ar wahân i'r anesmwythdra, mae'n wastraff arian os yw'r aer rydych chi wedi talu i'w gynhesu yn dianc drwy fylchau mân yn y tŷ ac yn cael ei ddisodli gan aer oer o'r tu allan.

Y newyddion da yw ei bod yn hawdd atal drafftiau. Mae'n hawdd llenwi'r tyllau drwy wneud ychydig o DIY a sicrhau bod y cartref yn glyd. Byddwch yn stopio gwastraffu'ch arian ar filiau gwresogi, ac yn gostwng eich allyriadau carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) hefyd.

Felly o ble ddaw drafftiau? Mae gan y rhan fwyaf o dai, yn enwedig hen dai, graciau a bylchau y mae aer cynnes yn mynd allan ohonynt ac aer oer yn cael ei chwythu i mewn. Ni ellir delio gyda'r rhain i gyd drwy DIY, ond gellir delio â llawer ohonynt, fel y bylchau rhwng neu o amgylch estyll y lloriau; o amgylch ffenestri a drwsau; drwy'r twll llythyrau; ble mae pibelli yn dod drwy waliau allanol; o amgylch drws yr atig; ac o amgylch gosodiadau trydanol.

Defnyddiwch y rhestr wirio (ar y dde) i ddarganfod lle gallwch atal drafftiau mewn manau gwahanol yn eich cartref.

**Peidiwch byth â blocio pibelli boeler, brics aer, na thyllau aer diferu, a cheisiwch osgoi atal drafftiau o ffenestri ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn ormodol, gan fod angen i aer llaith ddianc.**



'Neidr' atal drafftiau thema robot ar gyfer ffenest ystafell wely plentyn

### Gwylwch y bwlch


Y manau mwyaf cyffredin i ddrafftiau... a sut i ddefnyddio DIY i'w trin

**Ffenestri:** Defnyddiwch ewyn, metal neu sribedi drafft plastig (gweler trosodd) neu brwsiwch seliau ffenestri codi (llun, dde). Mae gwyr eilaidd dros dro yn opsiwn arall



**Drysau allanol:** Ffitiwch rimyn atal drafft gyda brws neu fflap cymalog, ar hyd gwaelod drysau (gweler trosodd).

**Drysau mewnol:** Gallwch leihau drafftiau gyda 'neidr' atal drafftiau (fel yr un yn y llun, ar y dde), brwsys neu sribedi tebyg o ddefnydd, (gweler trosodd).



**Simneiau nad ydynt yn cael eu defnyddio:** Mae atalwyr drafft simneiau – a elwir yn aml yn 'falwnau simdde' – ar gael o'r rhan fwyaf o siopau DIY. Cofiwch eu tynnu yn yr haf i adael i aer gylchdroi.

**O amgylch pibelli:** Defnyddiwch fastig silicon, llenwr waliau neu ewyn ehangol fel bo'n addas.

**Estyll lloriau a bordiau waliau:** Llenwch y bylchau gyda llenwyr hyblyg, clir neu fastig silicon brown, calc adeiladwr neu gynnyrch tebyg.



**Craciau yn y waliau:** Defnyddiwch sment neu lenwr waliau sy'n setio'n galed.

**Manau lle mae ffannau echdynnu nad ydynt yn gweithio bellach:** Dylid cau'r rhain.

**Drysau'r atig:** Defnyddiwch sribedi o ddeunydd atal drafftiau wedi eu ffitio o amgylch ymylon y ffrâm, a pheidiwch ag anghofio inswleiddio'r drws ei hun.



**Gosodiadau golau a thrydanol:** Plygiwch y tyllai o amgylch y gosodiadau gyda llenwr waliau.

**Tyllau llythyrau:** Rhowch fflapiau neu frwsys yn eu lle i gadw'r aer oer allan a'r aer cynnes y tu mewn. Gweler y cyfarwyddiadau trosodd.



Gweler trosodd am gyfarwyddiadau ar sut i osod brws drws, sut i ffitio ataliwr drafft twll llythyrau a sut i ffitio sribed atal drafftiau ar ffenest neu ddrws

## Sut i osod brwsh drws

Gellir gosod brwshys drysau yn hawdd ar hyd gwaelod y rhan fwyaf o ddrysau. Yn gyntaf, defnyddiwch dâp mesur i fesur lled y drws a thorrwch y brwsh i'r hyd cywir (gall haclif wneud hyn yn dda)

Yna gosodwch y brwsh yn erbyn y drws fel bod y brwsh yn cyffwrdd y llawr. Gan ddefnyddio pensel, rhowch farciau ar y drws drwy'r tyllau sydd eisoes yn yr ataliwr drafft er mwyn dangos lle dylai'r sgriwiau gael eu rhoi.

Nesaf, gwnewch dyllau peilot yn y manau rydych wedi eu marcio a sgriwuwch yr ataliwr yn ei le.

Agorwch a chaewch y drws er mwyn sicrhau ei fod yn cau at ei gilydd yn dda cyn tynhau'r sgriwiau neu addasu'r uchder os oes angen. Ni ddylid gosod yr ataliwr mor isel fel bod y drws yn anodd ei agor neu ei gau!



## Sut i osod ataliwr drafft twll llythyrau

Mae ataliwr drafft twll llythyrau yn ffordd syml o atal gwres rhag dianc.

I ddechrau, rhowch yr ataliwr drafft dros eich twll llythyrau a defnyddiwch bensel i farcio'r manau gosod drwy'r tyllau sydd eisoes yno. Efallai y gallai ffrind ddal yr ataliwr drafft yn ei le tra byddwch yn gwirio y gall llythyrau basio trwyddo.

Driliwch dyllau peilot yn y manau rydych wedi eu marcio a sgriwuwch yr ataliwr drafft yn llac ar y drws.

Gwiriwch y gall llythyrau basio trwy'r brwshys cyn tynhau'r sgriwiau, gan addasu'r ffordd mae wedi ei osod os oes angen.



## Fixing a perimeter seal around a window or door using foam draught-excluder

I gychwyn, torrwch ddarn 50-60mm or ataliwr drafft ewynnog i'w ddefnyddio fel sribyn profi. Gosodwch hwn ar ffrâm y drws neu ffrâm y ffenest (nid ar y drws na'r ffenest ei hun) mor agos â phosib at yr ymyl agosaf atoch. Caewch y drws neu'r ffenest a rhowch gerdyn credyd rhwng y sribyn profi a'r drws. Dylai ffitio'n gyfforddus. Os oes yn rhaid i chi ei orfodi, yna mae'n debyg fod yr ataliwr yn rhy dew; os yw'r cerdyn credyd yn rhydd ac yn cwmpo allan yna mae'n debyg bod yr ataliwr yn rhy denau. Unwaith byddwch wedi gwneud y prawf, symudwch y sribyn profi.

Pan fyddwch yn hapus bod gennych ataliwr ewynnog o'r maint cywir, mesurwch ffrâm eich drws neu'ch ffenest a thorrwch yr ataliwr i'r hyd sydd ei angen gan ddefnyddio siswrn.

Glanhewch a sychwch y ffrâm er mwyn sicrhau bod y glut yn sticio, yna rhowch y sribyn ewynnog ar y ffrâm, mor agos at yr ymyl ag sy'n bosib, gan wirio nad yw'n anodd agor na chau'r drws neu'r ffenest!



Also available in white!



3 St Peter's Court  
Bedminster Parade  
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400  
[www.cse.org.uk](http://www.cse.org.uk)  
[info@cse.org.uk](mailto:info@cse.org.uk)

Charity: 298740  
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tîm Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai yn Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).

Phone 0800 082 2234

Email [home.energy@cse.org.uk](mailto:home.energy@cse.org.uk)

Web [www.cse.org.uk/loveyourhome](http://www.cse.org.uk/loveyourhome)

 [www.facebook.com/EnergySavingAdvice](https://www.facebook.com/EnergySavingAdvice)

 [www.twitter.com/@cse\\_homeenergy](https://www.twitter.com/@cse_homeenergy)